GloballySusDCymru

Cyfathrebu Datblygiad Cynaladwy ar draws Cymru a'r Byd

Medi 2008

CROESO

Aethom ni â neges o fyw'n gynaladwy allan i'r Eisteddfod eleni—yn llythrennol! Aethom â'n cartref cynaladwy Cynnal Cymru-Sustain Wales allan i'r maes ynghyd â sesiynau ymarferol drwy gydol yr wythnos. Darllenwch bopeth amdano ar ein gwefan www.cynnalcymru.com!

Yn y rhifyn hwn cewch newyddion diweddaraf ar lwyddiannau Cymunedau Seren Aur Cymru, albwm 'werdd' newydd Gai Toms, lansiad Pecyn Gweithredu Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru a mwy tu hwnt.

Thema'r mis hwn yw twristiaeth, darllenwch ein cyngor cwta i'ch busnes twristiaeth chi yn yr adran 'camau bach newid MAWR'. Mae'r dyddiadur yn y cefn, fy newis i fis yma yw Ffair Werdd Bannau Brycheiniog, 4 Hydref a fydd yn llawn gwybodaeth ar ynni adnewyddol a chyngor i fusnesau twristiaeth sydd am gyfarfod cyflenwyr gwyrdd.

Mae cyfarfod blynyddol Cynnal Cymru-Sustain Wales ar 19-20 mis yma hefyd , rhan o gynhadeldd Trawsffurfio Cenedl, gyda siaradwyr rhagorol. Gwelaf i chi yno!

Pob hwyl

Helen Nelson
Cyfarwyddwr Gweithredol

Cynnal Cymru - Sustain Wales
www.cynnalcymru.com /
www.sustainwales.com

Cyfranwch i'r rhifyn nesaf

Danfonwch eich newyddion i: **newyddion@cynnalcymru.com**

NEWYDDION CYMRU

Partneriaethau Cymru o blaid Affrica yn Helpu Dileu Tlodi

Mae dwy gymuned Cymraeg a dwy gymuned yn Affrica wedi llwyddo i fod y cyntaf yn y byd i ennill gwobr 'Seren Aur y Cenhedloedd Unedig' am eu hymdrechion i adeiladu heddwch, ffyniant a dealltwriaeth drwy ddatblygu cyfeillgarwch tymor hir rhwng Cymru ag Affrica.

Cymeradwywyd wyth partneriaeth arall am eu llwyddiannau hefyd mewn seremoni gyda'r Prif Weinidog Rhodri Morgan AC yn yr Eisteddfod Genedlaethol mis Awst.

Daeth seremoni Gwobrwyon Cymunedau Seren Aur ym mhafiliwn 'Sbardun' WCVA â phobl llwyth Maasai, hyrwyddwyr tlodi bydol y Cenhedloedd Unedig, ymwelwyr ysgogol o wledydd Affrica a chymunedau Cymraeg at ei gilydd i oleubwyntio sut maent yn gwneud gwahaniaeth.

Aeth Gwobrau Seren Aur cyntaf y byd i bartneriaethau Pontypridd (Rhondda Cynon Taf) ac Mbale yn Uganda; ac Amlwch (Sir Fôn) a Sankwia yn y Gambia.

Gwelwch y wefan.

Ffair Werdd Bannau Brycheiniog

Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnal Ffair Werdd Bannau Brycheiniog ar 4 Hydref. Bydd y ffair yn cyfuno dau achlysur llwyddiannus i greu shop-un-stop i bobl sydd am ddysgu mwy am ynni adnewyddol ac i fusnesau twristiaeth sydd am ddod o hyd i gyflenwyr gwyrdd. Bydd y ffair yn rhedeg ar y cyd gyda Gŵyl Fwyd Aberhonddu a bydd yn gyfle perffaith i ddysgu mwy am gynnyrch a gwasanaethau gwyrdd.

Mae micro-gynhyrchu a thwristiaeth cynaladwy yn ganolog i nod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o ymddwyn fel model o ddatblygiad cymunedol cynaladwy. Cynhelir y ffair mewn pabell fawr ar y Struet, Aberhonddu (tu fas i neuadd y farchnad) o 10yb hyd at 5yh. Cysylltwch â Theresa Stabb ar 01544 231 241/07748611019 neu e-bostiwch theresa.stabb@virgin.net.

Cynnyrch Organig Cymraeg yn Parhau i Dyfu

Gwelwyd cynnydd o 22% yn nhir organig Cymru yn ystod y flwyddyn hyd at Ionawr 2008 yn ôl ffigurau Defra mis Gorffennaf, gan gyrraedd 6.4% o dir amaethyddol. Mae 857 o ddaliadau yn organig neu'n cael eu trawsnewid, o'i gymharu â 710 Ionawr 2007. Mae'n dangos fod Cymru ar ei ffordd i gyrraedd targed Cynllun Gwaith Organig Cymru o 10-15% o dir organig erbyn 2010.

‘Credwn fod y twf yma'n adlewyrchu cyflwr da'r farchnad a chymorth cadarnhaol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn benodol eu cymorth am Wasanaeth Gwybodaeth Troi'n Organig (OCIS), Canolfan Organig Cymru a'r Cynllun Gwaith Organig' meddai Dr Nic Lampkin, Cyfarwyddwr Canolfan Organig Cymru.

Mae'r ffigurau'n dangos bod ychydig dros 96,000 ha o dir Cymru o dan reolaeth organig, ac mae dros dwy-draean o hwnnw yn hollol organig, gyda'r traean arall o dan drawsnewidiad. Mae hefyd 149 cynhyrchydd a mewnforwyr sydd wedi'u tystio'n organig.

Adeilad-eco yn Ennill Gwobr Adeiladu

Mae Cyngor Sir Bwrdeistref Torfaen yn falch i gyhoeddi fod ei adeilad-eco wedi ennill gwobr cynaladwyedd yng Ngwobrau Rhagoriaeth Adeiladu Cymru am iddo ddefnyddio egwyddorion adeiladu cynaladwy i ddarparu etifeddiaeth cynaladwy. Fel enillydd bydd yr adeilad yn rhan o'r gwobrau cenedlaethol sydd i'w cynnal mis Tachwedd.

Cynhyrchwyd yr Adeilad-eco fel rhan o ymrwymiad Cyngor Torfaen gyda phrosiect rhyngwladol 'Encourage' a'i hariannwyd gan raglen Interreg IIIB. Mae'r adeilad yn enghraifft ragorol o adeiladu cynaladwy gyda llawer o nodweddion amgylcheddol. Wedi ei hadeiladu o bren gydag ynysiad o wellt, denim a phapur newydd ailgylched, fe gynlluniwyd yr Adeilad-eco i gael effaith amgylcheddol lleiafrifol.

Meddai Dave Ludlow, Pennaeth Datblygiad Economaidd, ‘Rydym wrth ein bodd i dderbyn y wobr fawreddog hon ac yn teimlo bod yr adeilad wedi cael ei hadnabod fel goleufa o gynaladwyedd bydd yn hybu eraill i'w dilyn.’

Os hoffech ymweld â'r Adeilad-eco neu hoffech wybodaeth amdani e-bostiwch ecobuilding@torfaen.gov.uk.

3ydd Gwobrau Egni Cynaladwy Ewrop

Hoffech chi gael cydnabyddiad i’ch ymrwymiad ac ymdrech i ynni cynaladwy ar lefel Ewropeaidd a chael cyfle o ennill gwobr yng nghwmni Uwch-swyddogion y Gymuned Ewropeaidd? Ymunwch a chystadleuaeth Gwobrau Ynni Cynaladwy Ewrop nawr a dewch yn llysgennad o ragoriaeth Ewropeaidd mewn ynni cynaladwy.

Mae Ymgyrch Ynni Cynaladwy Ewrop (www.sustenergy.org) yn brif fenter o’r Comisiwn Ewropeaidd/Cyfarwyddiaeth Cyffredinol Trafnidiaeth ac Ynni sydd yn bwriadu hybu, arddangos a gwobrwyo prosiectau a rhaglenni rhagorol sydd â chanlyniadau nodedig.

Ymunwch fel partner swyddogol cyn 31 Hydref 2008 ac fe gewch eich rhoi yn y gystadleuaeth a seremoni fawreddog flynyddol, i’w gynnal ym Mrwsel ar 10 Chwefror 2009.

Am fanylion ar sut i ymuno a’r ymgyrch ac enwebu’ch prosiect yn y gystadleuaeth eleni, cysylltwch â Marc Patuzzo, Sustainable Energy Europe Campaign ar +32 2 340 30 69 neu pr@sustenergy.org.
Gwelwch www.sustenergy.org/tpl/page.cfm?pageName=award_competition.

Cyfeirlyfr Newydd i Fasnachwyr ar Fwyd Organig

Mae rhifyn newydd o Gyfeirlyfr Masnach Organig Cymru nawr ar gael o Ganolfan Organig Cymru. Mae'n rhestri cyflenwyr o fwydydd ffres ac organig yng Nghymru ar gyfer y sectorau prynu cyhoeddus a lletygarwch.

Mae dros 50 cwmni wedi ei gynrychioli yn y canllaw, o dan nifer o gategorïau o ddiodydd i nwyddau pob, a ffrwythau a llysiau i fwydydd parod a chynhwysion bwyd. Fe'i dosbarthwyd hefyd yn ôl y math o gyflenwad p'un a'i hyw ar gyfer gwerthwyr annibynnol, y diwydiant neu ar gyfer eu hallforio.

Mae'r cyfeirlyfr hefyd yn cynnwys DVD 'Prynu'n gynaladwy - pam fo prynu'n organig yn bwysig' sy'n dangos potensial bwyd organig i helpu awdurdodau lleol fod yn fwy cynaladwy tra hefyd yn hybu adfywiaeth economaidd yn eu hardaloedd. Gellir lawrlwytho'r cyfeirlyfr ar www.organic.aber.ac.uk/tradedirectory, neu ffoniwch Ganolfan Organig Cymru am gopi caled ar 01970 622248.

Lansiad Pecyn Gweithredu Newid Hinsawdd Gymunedol

Ydych chi am wybod sut fedrwch chi arbed ynni yn eich grŵp mam a phlentyn neu osod paneli solar ar eich neuadd gymunedol? Efallai eich bod am wybod sut allwch chi wneud mwy i daclo newid hinsawdd.

Nawr mae help ar gael gyda gwybodaeth ymarferol ar sut gall eich cymuned wneud gwahaniaeth gyda Phecyn Gweithredu Cymunedol i Daclo Newid Hinsawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Wrth lansio'r pecyn yng Ngorffennaf, meddai Jane Davidson, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai: 'Wrth weithio gyda'n gilydd gallwn ddod o hyd i atebion newydd radicalaidd i ddelio gydag effeithiau newid hinsawdd. Bydd gwaith yn y gymuned yn hanfodol i gyrraedd ymrwymiad Cymru'n Un o ostyngiad mewn allyriadau carbon o 3% yn flynyddol erbyn 2011.'

Mae'r pecyn yn dangos prosiectau ar ynni, cludiant, dŵr a bwyd. Wedi ei gynhyrchu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chymorth Cynnal Cymru-Sustain Wales, mae'r pecyn hefyd yn cynnwys DVD o brosiectau cymunedol. Gwelwch y wefan.

Bwrsari i Gefnogi Ymchwil ar Gynaladwyedd gan Fyfyrwyr

Mis Gorffennaf cyhoeddodd Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, bod bwrsari ar gael i hyrwyddo ymchwil gan fyfyrwyr i gynaladwyedd. Gellir cael mwy o wybodaeth ar y wefan.

Adroddiad ar Adolygiad o Effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynaladwy

Cyhoeddwyd adroddiad sy'n asesu effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynaladwy ac fe'i gosodwyd o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae copi o'r

adroddiad ar gael ar y wefan.

Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Strategaeth Coetiroedd Cymru

Mae Strategaeth Coetiroedd i Gymru, ar agor i ymgynghoriad cyhoeddus i ddylanwadu ar gyfeiriad coedwigaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Ers ei gyhoeddi yn 2001 mae nifer o faterion newydd i'w hystyried, megis newid yn yr hinsawdd a chyhoeddi strategaethau newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn rheoli'r adolygiad ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae wedi cynhyrchu papur ymgynghori sy'n egluro'r sefyllfa bresennol a'r materion a'r sialensiau y bydd angen eu hystyried yn yr adolygiad.

Ceisiwyd barn unrhyw un sydd â diddordeb yng nghoed a choetiroedd Cymru. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn parhau hyd 14 Hydref.

Gallwch weld y papur ac ymateb ar www.forestry.gov.uk/wwstrategy. Cysylltwch â Jane Holloway wwstrategy@forestry.gsi.gov.uk neu 0845 604 0845.

Cyngor Arbed Ynni ar gyfer Pawb yng Nghymru

Wrth i bryder gynyddu dros filiau tanwydd uwch a chynnydd mewn allyriadau carbon mae canolfan cyngor Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yno i helpu! Mae'r ganolfan newydd, ym Mae Caerdydd, yn barod i gynnig cyngor di-dâl a diduedd ar bob agwedd o arbed ynni. Gall gynghorwyr rhoi cyngor manwl ar bob dim o osod ynysiad neu dechnolegau adnewyddol i newidiadau bach mewn ymddygiad, cludiant a gwastraff.

Mae gan gynghorwyr wybodaeth dda leol yn eu galluogi i asesu'r math o gartref, ffordd o fyw ac anghenion unrhyw gwsmer a rhoi cyngor manwl iddynt ar eu cartref. Mae ganddynt wybodaeth hefyd ar holl gynlluniau grant a chymhelliant ar draws y wlad hefyd.

Estynnir yr oriau agor am alwadau i 9yb-8yh ac mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cyngor wyneb-wrth-wyneb. Mae tîm cynghori'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gael mewn 'meddygfeydd' drwy'r flwyddyn. Gwelwch www.energysavingtrust/wales.org.uk.

Adeiladu am Ddyfodol Gwell

Dros benwythnos olaf Mehefin bu grwpiau trefi trawsnewidiol Aberystwyth a Bro Dyfi lawr yn Sir Benfro i fynd ar waith ar fferm organig ac SSSI Matt Sutton ger Dinbych-y-pysgod.

Bu'r grŵp yn helpu i osod sylfeini ar gyfer cynhyrchu mêl ar y fferm i arbed y siwrnai arferol i Hay-on-Wye; nid y sefyllfa ddelfrydol i fusnes sy'n ceisio cadw'n effaith-isel!

Gan arbrofi gyda chymysgedd o ddulliau adeiladu traddodiadol ar gyfer y welydd e.e. clom, pren cord, a phlethwaith a chlai, bu'r grŵp yn gwireddu gweledigaeth Matt.

Mae'r fferm 87 erw yn cynnwys dolau o flodau gwyllt ar gyfer y gwenyn, coedwigoedd hynafol a gyr o wartheg.

Meddai trigolyn Aberystwyth, Steve Saville, ‘roedd y penwythnos yn gyfle gwych i gael tro ar sgiliau pwysig ar gyfer adeiladu’r cartrefi sero-carbon fydd yn rhan hanfodol o'n dyfodol cynaladwy yng Ngheredigion.'

Cysylltwch â Albrecht Fink fogelfink@riseup.net neu Sophie Wynne-Jones svw05@aber.ac.uk.

Gwefan Newydd sy'n Esbonio'r System Gynllunio

Mae gan Cymorth Cynllunio Cymru wefan newydd sy'n llawn o wybodaeth am system gynllunio Cymru. Mae'n esbonio prif elfennau'r system gynllunio defnydd tir mewn iaith blaen ac yn egluro sut gall y cyhoedd gymryd rhan mewn materion cynllunio.

Gallwch hefyd lawrlwytho nifer o daflenni a llyfrynnau sy'n rhoi gwybodaeth fwy manwl ar agweddau arbennig o'r system gynllunio. Mae dolenni yn eich arwain at ffynonellau eraill o wybodaeth bellach ar-lein, fel y gallwch gael hyd i'r holl wybodaeth sy ei hangen ar gyfer eich ymgyrch gymunedol.

Ceir rhestr dermau cynhwysfawr, sy'n esbonio termau arbenigol mewn iaith glir a syml. A rhag ofn eich bod yn dal heb ffeindio beth rydych am wybod, cewch yno hefyd fanylion cyswllt Cymorth Cynllunio Cymru a mudiadau eraill a all helpu yn bellach.

Bydd y wefan newydd, www.cymorthcynlluniocymru.org.uk, yn tyfu dros y misoedd a blynyddoedd i ddod.

Gai Gai Toms yn Rhyddhau Albwm Eco-cysyniadol

Ers blwyddyn bellach, mae Gai Toms (Anweledig, Mim Twm Llai gynt) wedi bod yn paratoi casgliad o ganeuon dan faner un pwnc. Pa bwnc gofynnwch? Yr Amgylchedd a phopeth sy’n gysylltiedig â hynny. Y pynciau sy’n brysur sisiali ar dafod pob un ohonom.

Mae rhan fwyaf o’r albwm wedi ei gynhyrchu yn defnyddio ynni glân, y clawr o ddefnydd wedi ailgylchu ac mae hyd yn oed y drymiau wedi eu hailgylchu o hen fareli a sgrap! Meddai Gai:

‘Do’n i’m heisiau’r cysyniad fod yn y caneuon yn unig, rwyf wedi trio bod mor egwyddorol â phosib wrth ei gynhyrchu hefyd, gan obeithio bod hynny’n ychwanegu at ei sŵn a’i naws, ac yn gwneud datganiad yr un pryd.’

Mae Rhwng y Llygru a’r Glasu ar werth am £11.99 mewn siopau llyfrau/recordiau Cymraeg ac ar wefan Sbensh a Sebon neu www.myspace.com/gaitoms.

Treftadaeth ar Flaen Eich Bys

Mae rhwydwaith o bwyntiau gwybodaeth gyfrifiadurol yn helpu ymwelwyr ddarganfod ein treftadaeth fel cenedl ddiwydiannol cyntaf y byd. Cynllunier gosod 22 o'r blychau ar hyd de Cymru ac mae nifer ohonynt eisoes yn cael eu defnyddio gan gynnwys Castell Cyfarthfa, Amgueddfa Gloddio Pwll Mawr a rhaeadr Aberdulais.

Mae'r rhwydwaith, syniad partneriaeth HERIAN, yn darparu gwybodaeth am hanes ei leoliad o wasgu botwm. Mae hefyd yn arwyddo pobl I safleoedd eraill ar hyd de Cymru i roi stori lawn yr ardal.

Lansiad Rhwydwaith Iechyd Meddwl

Lansiwyd Rhwydwaith Iechyd Meddwl Cymru-Gyfan mis Mawrth. O dan ofal canolfan Iechyd Cymru, mae'n un o brif fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella iechyd meddwl y boblogaeth.

Bydd y rhwydwaith yn cysylltu ystod eang o fudd-ddeiliaid gan gynnwys cyflogwyr, awdurdodau lleol, undebau, proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol, athrawon a phroffesiynau'r sector gwirfoddol sydd gan rôl bwysig i'w chwarae. Bydd hefyd yn hwyluso cyfnewidiad dysgu, rhannu ymarferion da a hybu ffyrdd o wella iechyd meddwl .

Mae'r wefan www.publicmentalhealth.org yn ganolbwynt ar gyfer hybu iechyd meddwl yng Nghymru, y rhwydwaith, dolenni defnyddiol, cylchlythyron chwarterol, cyngor ar gyfer iechyd meddwl da a deunyddiau i'w lawrlwytho.

Cysylltwch â Nathan Jones ar Nathan.Jones@wch.wales.nhs.uk neu gwelwch www.publicmentalhealth.org.

Trawsffurfio Cenedl: Cynhadledd 2-ddydd

Ar 19-20 Medi, bydd Cynnal Cymru-Sustain Wales a Sefydliad Materion Cymru yn cyd-gynnal Trawsffurfio Cenedl: Ymateb Cymru i Newid Hinsawdd. Mae'r digwyddiad, cadeiriwyd gan Cynog Dafis, wedi denu siaradwyr uchel eu proffil gan gynnwys George Monbiot, Syr John Houghton, Patrick Holden, Mark Lynas, Morgan Parry a Pete Segger.

Ar y diwrnod cyntaf bydd cyfarfod blynyddol Cynnal Cymru ac yna anerchiad fin nos gan George Monbiot. Ar yr ail ddiwrnod bydd siaradwyr yn archwilio, mewn modd ymarferol, y rhyngweithiadau cymhleth rhwng newid hinsawdd a diwylliant gwledig: o'r bydol i'r lleol go iawn.

Mae Trawsffurfio Cenedl yn edrych i hwyluso newid yn yr agenda datblygiad cynaladwy/newid hinsawdd i ffwrdd o lobïo a chodi ymwybyddiaeth tuag at ddatblygu gosodiadau polisi cadarnhaol, blaengar wedi eu llywio gan gymdeithas sifil a gan weithio'n agos â'r cyhoedd.

Lawrlwythwch rhaglen a ffurflen gais o www.cynnalcymru.com. Mae gostyngiadau ar gael i aelodau Cynnal Cymru-Sustain Wales.

Ail-lansio Gwefan Bioamrywiaeth

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael ei thrawsnewid. Bydd y dudalen flaen a'r strwythur yn newid eu gwedd a bydd adrannau allweddol yn cael eu categoreiddio i hwyluso llywio. Bydd y dudalen newyddion a'r bas data digwyddiadau yn aros yr un fath.

Bydd y 'Llyfrgell' yn cael ei had-drefnu i symleiddio llywio'r safle ac er mwyn ychwanegu cyfleuster 'Chwilio'. Fe fydd yn parhau i ddefnyddio'r cyfeiriad www.bioamrywiaethcymru.org.uk. Byddant hefyd yn aildrefnu a golygu'r cynnwys a bydd y safle'n datblygu dros amser. Mae eich adborth yn ei eisiau a gallwch gyflwyno sylwadau trwy'r wefan.

NEWYDDION BYDOL

'We Are What We Do' yn Mynd i America

Blwyddyn nesaf caiff 'Change the World for Ten Bucks' ei lansio yn yr UDA ac mae angen eich help: eich cyngor, eich syniadau creadigol a, lle bo'n bosib, eich cysylltiadau Americanaidd. Mae We Are What We Do am wybod pa 50 gweithred fach dylai fod yn y llyfryn; beth fyddai Americanwyr yn gofyn i 1 miliwn o bobl ei wneud?

Bydd y llyfr newydd yn y fformat adnabyddus. Yn llawn gweithredoedd bach, bob dydd gall pawb eu gwneud. Pethau fel cau'r tap wrth frwsio'ch dannedd neu wenu wrth berson diarth. Pethau sydd yn fach wrth eu hunain ond gyda'i gilydd yn enfawr.

Gwireb We Are What We Do yw bod gweithredoedd bach gan lawer o bobl yn creu newid mawr. Mae 300 miliwn o bobl yn lawer o bobl. Os oes ganoch chi unrhyw Americanwyr yn eich llyfr ffôn, helpwch i ddarganfod beth hoffent newid. Cysylltwch â sara@wearewhatwedo.org.

CAMAU BACH, EFFAITH MAWR

Pôl Piniwn

Mis yma, cawsom ymateb cymysg yn ein pôl piniwn!

Gofynom ni, ydych chi'n bwriadu hedfan yn 2008 i fynd ar eich gwyliau?
Dywedoch chi,

- Ydw 27%
- Ydw ond byddai'n well gennyf beidio 20%
- Na, fe af i rhywffordd arall 18%
- Na, dwi'n aros u fewn y DU 35%

Thema mis nesaf yw **bwyd**. Ewch i www.cynnalcymru.com ac atebwch y cwestiwn:

Pa mor aml bwytwch chi bryd micro-don?

- Yn aml iawn
- Ambell i waith y mis
- Braidd byth
- Byth

Cyngor Cwta ar gyfer eich Busnes Twristiaeth Chi

Mae nifer o dwristiaid nawr yn chwilio am letywyr ac atyniadau sydd yn medru dangos eu bod yn ecogyfeillgar. Dyma'n cyngor ni...

- Arbedwch ddŵr drwy wahodd eich gwesteion i ail ddefnyddio'u tyweli a gosodwch ffitiadau llif-isel i'ch tapiau dŵr.

- Rhowch sebonau ymolchi organig yn ystafell ymolchi eich gwesteion i leihau effaith cemegau yn ein systemau dŵr.

- Rhowch finiau ailgylchu bach yn ystafelloedd eich gwesteion yn ogystal â bin arferol.

- Rhowch wastraff eich cegin ar y compost drwy ddechrau'ch tomen eich hunain neu gofynnwch i'ch cyngor sir pa wasanaeth sydd ar gael yn eich ardal.

- Ystyriwch gynnig cynnyrch lleol. Nid yn unig y bydd yn ffres ac o ansawdd, ac ni fydd yn cyfrannu llawer tuag at eich milltiroedd bwyd, ond byddwch hefyd yn cefnogi busnesau eraill yr ardal.

- Cynigwch nwyddau masnach deg fel te, coffi, sudd, siwgr neu ffrwythau. Bydd hyn yn sicrhau bod nwyddau a'u mewnforiwyd yn cael eu prynu am bris teg a bod arian yn mynd yn ôl i'r gymuned lle'u cynhyrchwyd.

- Defnyddiwch gynnyrch organig yn eich cegin, gallwch hyd yn oed ei dyfu eich hunain.

- Gwnewch eich adeilad yn ynni effeithlon; trowch declynnau bant wrth y wal a gosodwch fylbiau ynni isel. Gall grantiau fod ar gael am brosiectau fel ynysu'ch llofft neu osod ffenestri dwbl, siaradwch ag Ymddiriedolaeth Arbed Ynni am gyngor.

- Ystyriwch y drafnidiaeth i gyrraedd eich safle. Anogwch eraill i adael eu ceir adref drwy gynnig eu casglu o'r orsaf neu faes awyr a gosod storfa ddiogel i feiciau.

- Darparwch ddigon o wybodaeth i'ch gwesteion er mwyn iddynt ddeall pam a sut rydych chi'n dod yn fwy cynaladwy. Mae gwefan yn le da am hyn ond gall deunydd darllen printiedig fod yn ddefnyddiol hefyd.

Gwelwch Wobrau Busnes a Chynaladwyedd Croeso Cymru a Rhwydwaith ARENA am astudiaethau achos ysbrydoledig.

- Mae arweinlyfr 'Ffynnu'n Wyrdd' gan Groeso Cymru a Rhwydwaith ARENA ar gael i'ch helpu chi reoli'ch busnes yn gynaladwy a'ch helpu i gyrraedd safon amgylcheddol y Ddraig Werdd. Mae ar gael i'w lawrlwytho o www.industry.visitwales.co.uk/server.php?show=ConWebDoc.142.

SAFBWYNT

River View Touring Park, Rhydaman.

Mae Keith a Kath Brasnett o barc teithiol River View wedi datblygu eu safle mewn modd adnodd effeithiol ac amgylcheddol sensitif gan wella'i harddwch naturiol, annog bywyd gwyllt a lleihau costau wrth gynyddu busnes ac ymwelwyr sy'n dod yn eu hôl.

Wedi ei leoli mewn ardal hardd a llonydd yn ne orllewin Cymru, bu'r gwaith yn cynnwys symud ac ail-blannu cannoedd o goed a bylbiau brodorol.

'O'r dechrau, ein cynllun oedd datblygu parc teithiol mwy i ddarparu hafan naturiol i ymwelwyr a busnes da i ni,' meddai'r ddau. 'Fel safle 4 seren, mae'n bwysig ei fod yn edrych yn ddeniadol a bod cyflwr da ar y safleoedd gosod a'r gwair. Ond, mae'n bosib cydbwyso hyn gyda chynnal cynefin bywyd gwyllt.'

Gwarchodir un clawdd hynafol a chrëwyd un newydd a'i blannu â rhywogaethau brodorol. Gadawyd sawl ardal yn wyllt gyda ffin o un metr o amgylch pob clawdd a phentyrrau o foncyffion wedi eu lleoli o amgylch y safle.

'Rheolir un o'r caeau fel hen ddôl wair,' meddent. 'Mae defaid yn pori arni hyd fis Chwefror yna gadewir hi i dyfu.'

Mae nawr digonedd o blanhigion dôl megis tegeirianau gwyllt, clychau'r gog, blodau'r mêl, a charwe troellog, blodyn sy'n endemig a blodyn sir Caerfyrddin.

Defnyddir peiriant torri gwair sy'n taenu i leihau'r amser mae'n cymryd i dorri'r gwair a gwella cyflwr y pridd a'r gwair; ac mae'r nifer o fwydod wedi cynyddu'n fawr iawn.

Nid yn unig ydy'r adeilad gyfleusterau yn edrych yn rhan o'i hamgylchfyd, fe'i hadeiladwyd yn effeithlon hefyd gyda ffrâm bren a chladin lleol. Mae wedi ei ynysu'n dda a chanddo hefyd baneli solar a gwresogi tanlawr.

Mae'r paneli solar yn darparu rhywfaint o wres drwy'r flwyddyn beth bynnag mo'r tywydd. Defnyddir ynni solar ar gyfer y gwresogi tanlawr a'r cyfleusterau ymolchi. Mae'r gwresogi tanlawr yn ddull effeithlon o ddarparu tymheredd cyson cyfforddus, wedi ei osod ar 18°C.

Mae dyluniad craff y to yn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau. Wrth gefn mae bwyler cyddwyso effeithlon a'i cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon. Mae bylbiau ynni isel, switsiau amser a synwyryddion 'PIR' yn sicrhau fod goleuadau ond arno pan fo'u hangen. Mae'r mesurau hyn yn arbed y perchnogion tua £1,200 y flwyddyn.

Adeiladwyd ffyrdd a safleoedd gosod bob-tywydd gan ddefnyddio deunyddiau ailgylched sy'n rhatach a mwy ecogyfeillgar. Yn ogystal â bod yn gadarn iawn, mae'r fantais yno hefyd eu bod yn lled-athraidd. Daeth y deunyddiau o'r ardal leol hefyd gan leihau effaith eu trafnidiaeth.

'Ein hethos oedd lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar yr amgylchedd: ar ein heiddo ni ac ar draws y byd,' meddai Keith a Kath.

Rheolir dŵr a gwastraff yn ofalus iawn yno. Gosodwyd biniau ailgylchu ar gyfer tuniau, gwydr a phapur gan Gyngor Sir Gâr ac anogir gwesteion i wahanu ac ailgylchu eu gwastraff. Rhoddir gwastraff gardd o'r safle a gwastraff llysiau'r gegin ar

y compost hefyd.

Mae'r system ddŵr poeth wedi ei blymio i ail-gylchdroi dŵr a gosodwyd teclynnau llif isel a systemau i leihau llif dŵr o'r tai bach. Plannwyd gwely cyrs i wella cyflwr yr all-lif o'r tanc septig, sydd yn costio llai na gosod offer trin carthion, yn arbed ynni, yn ymdopi'n iawn â nifer newidiol o lif ac yn denu bywyd gwyllt.

Ymysg y rhywogaethau i'w gweld o amgylch River View mae dau fath o ystlum, boncath, sgrech y coed, siglen lwyd, glas y dorlan, trochwr, llwynogwyd ac weithiau dwrgwn a moch daear.

Gwerthir cynnyrch lleol yn y siop fel wyau iâr buarth, cig moch, tatws newydd Gŵyr, cyffug Narberth a chig oen lleol.

Mae'r pâr am annog ymwelwyr i werthfawrogi bioamrywiaeth y safle felly rhoddir posteri, llyfrau a phamffledi yn y dderbynfa/siop a rhoddir 'pasbort i'r wlad' i blant trwy gynllun David Bellamy. Darparir gwybodaeth hefyd am gerdded yn lleol a'i hanes.

‘Lle'n bosib roeddem am weithio gyda natur yn hytrach nag yn ei herbyn,' ychwanega'r perchnogion.

Mae ymrwymiad y ddau at reoli'r safle yn sensitif wedi ei wobrwyo, ymysg sawl gwobr arall, fel enillydd Gwobrau Busnes a Chynaladwyedd 2006 yng nghategori twristiaeth a Gwobr Aur yng Nghynllun Gwobrau Cadwraeth David Bellamy.

Keith a Kath Brasnett, River View Touring Park, Rhydaman. Ffoniwch 01269 844876 neu e-bostiwch info@riverviewtouringpark.com.
Gwelwch www.riverviewtouringpark.com.

Gyda diolch i Croeso Cymru.

DIGWYDDIADAU – BETH SY’ MLAEN

Medi

13–14 Medi
Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaladwy a Dinasyddiaeth Bydol (ADCDB) – defnyddio'r awyr agored a dulliau sy'n cysylltu. Ebostiwch info@downtoearthproject.org.uk neu ffonwich 07900077122.

13-14 Medi
Walydd Cerrig Sych, Calch Ty-Mawr. Ebostiwch mike.scruby@lime.org.uk.

13-14 Medi
Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaladwy a Dinasyddiaeth Fydol (ADCDB) - defnyddio'r awyr agored a dulliau sy'n cysylltu. Ebostiwch info@downtoearthproject.org.uk neu ffoniwch 07900077122.

15 Medi
'Down to Earth Project' Dydd agored 10yb-3yp gydag anerchiad gan Jane Davidson AC a gweithdai blasu di-dâl mewn ystod o ddulliau adeiladu naturiol a thraddodiadol. Cysylltwch â Mark McKenna ar 01792 369 736/07900077122. Gwelwch

www.downtoearthproject.org.uk.

17-19 Medi
Cynhadledd ANPA, Llyn Windermere. Cofrestrwch arlein ar www.anpaconference.com.

19-20 Medi
Cyfarfod Blynyddol Cynnal Cymru - Sustain Wales & Cynhadledd Trawsffurfio Cenedl Bydd y gynhadledd yn ystyried, mewn modd hollol ymarferol, y cyswllt cymhleth rhwng newid hinsawdd a'n diwylliant gwledig: o'r byd i'n bro.

Cadeirydd y Gynhadledd: Cynog Dafis.
Prif Siaradwyr: George Monbiot, Sir John Houghton, Patrick Holden, Mark Lynas, Morgan Parry a Pete Segger.

Cysylltwch â wales@iwa.org.uk neu ffoniwch 029 2066 6666.
Darganfyddwch mwy.

29 Medi
Wythnos y 29 Medi: CA1H003 Cyflwyniad i Sgiliau Technegol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

29 Medi
Wythnos y 29 Medi: CA1H007 Rôl Dysgu Awyr Agored mewn Ymarferion Bywyd Cynaladwy Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

29 Medi
Wythnos 29 Medi: CA1H002 Cyflwyniad i Ddysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

Hydref

2 Hydref
Pennu Calch, Calch Ty-Mawr. Ebostiwch mike.scruby@lime.org.uk.

3 Hydref
Plastro Calch, Calch Ty-Mawr. Ebostiwch mike.scruby@lime.org.uk.

4 Hydref
Cynhadledd Cymunedau Carbon Isel, Llangollen. Sefydliadau ar draws y DU sy'n gweithio yn eu cymunedau i leihau eu cyfraniad i newid hinsawdd. Tracey Todhunter, Low Carbon Communities Network. I gadw lle gwelwch http://www.surveymonkey.com/s.aspx?sm=pLl_2beFUoq9A1QxT2eS3yhQ_3d.

4 Hydref
Ffair Werdd Bannau Brycheiniog 10yb-5yh. Cynnyrch gwyrdd ac ynni adnewyddol arloesol. Y Struet, Brecon, Powys, LD3 7LT, gyda Ffair Fwyd Brecon. Cysylltwch â Theresa Stabb ar 01544 231 241/07748611019 neu theresa.stabb@virgin.net.

6 Hydref

Wythnos 6 Hyd: CA1H003 Cyflwyniad i Sgiliau Technegol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

6 Hydref
Wythnos 6 Hyd: CA1H007 Rôl Dysgu Awyr Agored mewn Ymarferion Bywyd Cynaladwy Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

13 Hydref
Wythnos 6 Hyd: CA1H003 CA1H003 Cyflwyniad i Sgiliau Technegol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

13 Hydref
Wythnos 13 Hyd: CA1H002 Cyflwyniad i Ddysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

13 Hydref
Wythnos 13 Hyd: CA1H009 Dysgu Awyr Agored, Cynaladwyedd a Dinasyddiaeth Fydol Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

20 Hydref
Wythnos 20 Hyd: CA1H009 Dysgu Awyr Agored, Cynaladwyedd a Dinasyddiaeth Fydol Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

20 Hydref
Wythnos 20 Hyd: CA1H002 Cyflwyniad i Ddysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

20 Hydref
Wythnos 20 Hyd: CA1H008 Gweithio ar Dyfiant Personol drwy Ddysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

22 Hydref
Cynhadledd Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl Cymru Gyfan, 'Addasu i Ddigwyddiadau yn Eich Bywyd a'u Heffaith ar Iechyd Meddwl' Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd. Cysylltwch â Nathan.Jones@wch.wales.nhs.uk neu 029 2022 7744. Gwelwch http://www.publicmentalhealth.org/events.cfm?orgid=749&id=2263.

27 Hydref
Wythnos 27 Hyd: CA1H006 Sut i Sefydlu Eich Prosiect Cymunedol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

27 Hydref
Wythnos 27 Hyd: CA1H008 Gweithio ar Dyfiant Personol drwy Ddysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

27 Hydref
Wythnos 27 Hyd: CA1H009 Dysgu Awyr Agored, Cynaladwyedd a Dinasyddiaeth Fydol Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

Tachwedd

3 Tachwedd
Wythnos 3 Tach: CA1H008 Gweithio ar Dyfiant Personol drwy Ddysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

3 Tachwedd
Wythnos 3 Tach: CA1H006 Sut i Sefydlu Eich Prosiect Cymunedol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

7 Tachwedd
Plastro Calch, Calch Ty-Mawr. Ebostiwch mike.scruby@lime.org.uk.